sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

# Diwygiedig 2018-2033
## Cynllun Datblygu Lleol

# Datganiad Sefyllfa
## Canllawiau Cynllunio Atodol



Ebrill 2024

Cyngor **Sir Gâr**
**Carmarthenshire**
County Council

## 1. Cyflwyniad

Cynhaliwyd y Datganiad Sefyllfa hwn i gefnogi'r gwaith o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig ac i roi eglurder ychwanegol cyn archwilio paratoad y Canllawiau Cynllunio Atodol. Paratowyd y datganiad hwn fel dogfen gyflwyno i'w harchwilio, a'i thrafod yn dilyn sesiwn gwrandawiadau, a gynhelir yn ystod Haf / Hydref 2024.

## 2. Rhestr Baratoi

Fel rhan o'r CDLl Diwygiedig, nodwyd cyfres o Ganllawiau Cynllunio Atodol i'w paratoi. Er nad ydynt yn rhan o'r Cynllun Datblygu ei hun, mae gan y Canllawiau Cynllunio Atodol hyn rôl bwysig o ran ategu'r Cynllun a'i bolisïau a'i ddarpariaethau. Maent yn darparu eglurder ac arweiniad ychwanegol ar ddehongli'r Cynllun a rhaid i'r modd caiff ei weithredu fod yn gyson â'i gynnwys ac â chynnwys polisi cynllunio cenedlaethol.

Dylid nodi, er nad yw'r Canllawiau Cynllunio Atodol yn destun archwiliad annibynnol, fod eu paratoi, boed yr un pryd â'r Cynllun neu wedi hynny, yn darparu cefndir cyd-destunol pwysig i weithredu'r Cynllun.

Mae Atodiad 3 o'r Ail CDLl Diwygiedig Adneuo yn nodi'r Canllawiau Cynllunio Atodol canlynol i'w paratoi a dyddiad dangosol ar gyfer eu paratoi. Dylid nodi nad yw'r rhestr hon yn un derfynol a gellir cyflwyno Canllawiau Cynllunio Atodol ychwanegol. Dylid nodi hefyd, o ganlyniad i ddiwygiadau i'r Cytundeb Cyflawni ar ôl paratoi'r Ail CDLl Diwygiedig Adneuo, y bydd y dyddiadau a nodwyd yn cael eu diwygio i adlewyrchu dyddiad mabwysiadu'r Cynllun.

| **Cyfeirnod Polisi** | **Pwnc** | **Canllawiau Cynllunio Atodol presennol i'w cario ymlaen.**<br><br>Noder: Yn amodol ar ddiweddaru | **Canllaw Cynllunio Atodol newydd** | **Dyddiad targed ar gyfer Mabwysiadu** |
|---|---|---|---|---|
| NE4 | Ardal Cadwraeth Arbennig Caeau'r Mynydd Mawr | Y (Noder bod y gwreiddiol wedi ei diweddaru'n sylweddol o ganlyniad i dystiolaeth ddiwygiedig) | N | Hydref / Tachwedd 2024 |
| HOM3 | Cartrefi mewn Pentrefi Gwledig | N | Y | Hydref / Tachwedd 2024 |
| AHOM1, AHOM2 | Tai fforddiadwy | Y (Noder bod y gwreiddiol wedi ei ddiweddaru'n sylweddol) | N | Hydref / Tachwedd 2024 |
| INF4 | Cilfach Tywyn | N | Y | Hydref / Tachwedd 2024 |
| SP12 | Creu Lleoedd a Lleoedd Cynaliadwy | N | Y | Hydref / Tachwedd 2024 |
| PSD4 | Coed a phlannu fel rhan o ddatblygiadau newydd | N | Y | Haf 2025 |
| NE1 | Safleoedd o Bwys ar gyfer Gwerth Cadwraeth Natur | N | Y | Hydref / Tachwedd 2024 |
| NE2 | Cadwraeth Natur a Bioamrywiaeth | Y | N | Hydref / Tachwedd 2024 |
| SP15 | Yr Amgylchedd Adeiledig a Hanesyddol | N | Y | Rhagfyr 2025 |
| CCH1, CCH2 | Ynni Adnewyddadwy | N | Y | Rhagfyr 2025 |
| CCH4 | Ansawdd Dŵr – Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afonol Gwarchodedig | N | Y | Hydref / Tachwedd 2024 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| PSD9 | Hysbysebion (canllawiau ar ofynion dwyieithog). | N | Y | Haf 2025 |
| INF1 | Rhwymedigaethau Cynllunio | Y (Noder bod y gwreiddiol wedi ei ddiweddaru'n sylweddol) | N | Hydref / Tachwedd 2024 |
| SP15 | Archaeoleg | Y | N | Hydref / Tachwedd 2024 |
| SG3 | Penrhyn Pen-bre | N | Y | Rhagfyr 2025 |
| PSD3 | Rhwydweithiau a Datblygu Seilwaith Gwyrdd a Glas | N | Y | Haf 2025 |
| BHE2 | Cymeriad y Dirwedd | N | Y | Haf 2025 |
| WL1 | Y Gymraeg a Datblygiadau Newydd | Y (Noder bod y gwreiddiol wedi ei ddiweddaru'n sylweddol) | N | Hydref / Tachwedd 2024 |
| | Safle Benodol (briffiau cynllunio a datblygu - i'w cadarnhau) | | | Parhaus |
| Sawl un | Egwyddorion Dylunio mewn Datblygiad Newydd (cyfres o Ganllawiau Cynllunio Atodol i'w paratoi dros oes y CDLl) | N | Y | Parhaus |
| RD2 | Addasu ac ailddefnyddio adeiladau gwledig at ddefnydd preswyl | Y (Noder bod y gwreiddiol wedi ei ddiweddaru'n sylweddol) | N | Hydref / Tachwedd 2024 |
| INF2 | Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd | N | Y | Haf 2025 |
| VE3 | Gwersylla Moethus Amgen | N | Y | Hydref / Tachwedd 2024 |
| PSD12 | Llygredd Golau | N | Y | Rhagfyr 2025 |
| CCH3 | Cerbydau Trydan a Cherbydau Allyriadau Isel Iawn mewn Datblygiadau | N | Y | Haf 2025 |

## 3. Cynnydd Hyd yn Hyn

Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol canlynol wedi cael eu paratoi gan gynnwys cynnal ymgynghoriad cyhoeddus llawn â phenderfyniad y Cyngor i'w mabwysiadu'r un pryd â'r CDLl Diwygiedig. Er bod y rhain wedi cael eu paratoi ac yr ymgynghorwyd yn eu cylch yr un pryd â fersiwn Adneuo gyntaf y Cynllun, dylid nodi bod eu cynnwys yn parhau i fod yr un peth i raddau helaeth ag ail fersiwn Adneuo'r Cynllun. Fodd bynnag, bydd angen diwygiadau golygyddol a diweddaru arnynt i sicrhau bod y cynnwys, a chroesgyfeirio yn arbennig, yn parhau i fod yn gyson â'r ail Gynllun Adneuo a newidiadau dilynol i bolisi cenedlaethol.

**Canllawiau Cynllunio Atodol Cilfach Tywyn -** yn darparu canllawiau penodol ynghylch ystyried cynigion datblygu perthnasol sydd wedi'u lleoli yn nalgylch Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Llanelli. Er bod Llanelli (Prif Ganolfan) a Phorth Tywyn (Canolfan Wasanaethau) wedi'u hadnabod fel ffocws ar gyfer twf, maent hefyd yn ddarostyngedig i ystyriaethau amgylcheddol lefel uchel, yn anad dim ansawdd dŵr Safle Morol Ewropeaidd Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd. Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol yn ceisio cydbwyso'r ystyriaethau hyn gyda'r bwriad o hwyluso'r broses o gyflawni twf o fewn y Cynllun.

**Canllawiau Cynllunio Atodol Caeau Mynydd Mawr** - yn darparu canllawiau penodol mewn perthynas ag ystyried cynigion datblygu sy'n effeithio ar Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Caeau'r Mynydd Mawr. Wrth nodi ei gymwysterau amgylcheddol, bwriedir i'r Canllawiau Cynllunio Atodol hyn helpu i hwyluso'r gwaith o gyflawni'r CDLl Diwygiedig hyd at 2033 – yn fwyaf nodedig o fewn Prif Ganolfan Cross Hands a'r ardaloedd cyfagos fel rhan o ddull o greu lle.

Yn ogystal â'r uchod, mae nifer o Ganllawiau Cynllunio Atodol yn cael eu llunio ar y pryd i'w mabwysiadu ochr yn ochr â'r CDLl Diwygiedig. Ar adeg ysgrifennu, mae'r rhain wedi'u rhannu'n dair cyfran i'w paratoi ac adrodd arnynt drwy'r broses ddemocrataidd. Mae'r gyfran gyntaf yn cynnwys y canlynol ac wrthi'n derbyn cymeradwyaeth ddemocrataidd cyn ymgynghori yng Ngwanwyn 2024:

- **Yr Iaith Gymraeg**
- **Safleoedd o Bwys ar gyfer Cadwraeth Natur**
- **Darparu Mannau Agored mewn Datblygiadau Newydd**

Yn ogystal â'r uchod, bydd y canlynol hefyd yn rhan o'r cylch adrodd cyn ymgynghori â'r cyhoedd yn ystod y misoedd nesaf:

1. **Plastro, Rendro ac Inswleiddio Adeiladau Traddodiadol: canllawiau ar gyfer cynaliadwyedd**
2. **Canllaw Dylunio Blaen Siop Sir Gaerfyrddin**
3. **Canllawiau Rheoli Ardaloedd Cadwraeth Sir Gaerfyrddin**

Adroddir ynghylch Canllawiau Cynllunio Atodol pellach ar **Asesiad o Gymeriad y Dirwedd** yn hydref 2024 cyn eu mabwysiadu. Bydd hyn yn cefnogi gweithrediad polisi CDLl Diwygiedig BHE2: Cymeriad y Dirwedd a symud o Ardaloedd Tirwedd Arbennig i ddull seiliedig ar Gymeriad y Dirwedd.